OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 856 (Cy.79) (C.34)

# GALLUEDD MEDDYLIOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Cychwyn) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *13 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | |
| *At ddibenion erthygl 3* | *1 Gorffennaf 2007* |
| *At ddibenion erthygl 4* | *1 Hydref 2008* |
| *At bob diben arall* | *1 Hydref 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 68(2) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Cychwyn) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

### Cychwyn

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3 a 4, daw adrannau 30 i 34 (ymchwil) o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2007.

**3.** Daw adrannau 30 i 34 o'r Ddeddf i rym ar 1 Gorffennaf 2007 at ddibenion galluogi ceisiadau ar gyfer cymeradwyaeth o ran ymchwil i gael eu gwneud i gorff priodol ac i gael eu penderfynu ganddo.

**4.** Daw adrannau 30 i 34 o'r Ddedd i rym ar 1 Hydref 2008 o ran unrhyw ymchwil a gaiff ei wneud fel rhan o brosiect ymchwil—

(a) sydd yn dechrau cyn 1 Hydref 2007; a

(**1**) 2005 p.9.

(b) sydd yn cael ei gymeradwyo cyn 1 Hydref 2007 gan bwyllgor a sefydlir i gynghori ar foeseg ymchwil, neu ar faterion sy'n cynnwys moeseg ymchwil mewn perthynas â phobl nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio iddo.

**5.** Daw adrannau 35 i 41 (gwasanaeth eiriolwr annibynnol galluedd meddyliol) o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2007.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*

13 Mawrth 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

**1.** Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 30 i 41 o Ddeddf Iechyd Meddwl 2005 (p.9) ("y Ddeddf") o ran Cymru.

**2.** Mae erthygl 2 yn dwyn adrannau 30 i 34 i rym ar 1 Hydref 2007 o ran ymchwil a gaiff ei wneud fel rhan o brosiect a ddechreir ar neu ar ôl 1 Hydref 2007.

**3.** Mae erthygl 3 yn dwyn adrannau 30 i 34 i rym ar 1 Gorffennaf 2007 at ddibenion galluogi ceisiadau ar gyfer cymeradwyaeth o ran ymchwil i gael eu gwneud i gorff priodol ac i gael eu pernderfynu ganddo.

**4.** Mae erthygl 4 yn darparu pan fo prosiect ymchwil wedi dechrau cyn 1 Ebrill 2007 ac wedi'i gymeradwyo cyn y dyddiad hwnnw ni fydd adrannau 30 i 34 yn dod i rym tan 1 Hydref 2008.

**5.** Mae erthygl 5 yn dwyn adrannau 35 i 41 i rym ar 1 Hydref 2007.